Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol 2025 i 2026

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys:


| Rhan A: Cyffredinol | Tudalennau: |
| --- | --- |
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| 2. Cynsail Cyfreithiol, Atebolrwydd, Monitro ac Adolygu | 1 - 2 |
| 3. Egwyddorion y Cynllun a’r Prif Feini Prawf Cymhwysedd | 2 - 4 |
| **Rhan B: Elfennau’r Cynllun Bwrsariaeth** | |
| 4. Yr Elfen Nad yw’n Seiliedig ar Incwm | 4 - 6 |
| 5. Yr Elfen sy’n Seiliedig ar Incwm | 6 - 8 |
| **Rhan C: Y Broses Ymgeisio** | |
| 6. Y broses ymgeisio | 9 |
| 7. Hawliadau Ffug | 10 |
| **Rhan D: Ar ôl y Dyfarniad** | |
| 8. Absenoldeb/Ymddygiad | 10 |
| 9. Trosglwyddo Astudiaeth | 10 |
| 10. Ail-wneud Astudiaeth | 11 |
| 11. Newid mewn Amgylchiadau | 11 - 12 |
| 12. Dyddiadau a Dulliau Talu | 12 |
| 13. Trefn Adennill Dyledion | 12 - 13 |
| 14. Cais am Ailasesiad | 13 |
| 15. Cwynion | 13 |
| 16. Deddf Diogelu Data 2018 | 13 - 14 |
| **Atodiadau** | |
| Atodiad 1: Hawliadau Am LCDY Ychwanegol | 15 – 18 |
| Atodiad 2: Meini Prawf Preswylio | 19 – 27 |

## Rhan A: Cyffredinol

### 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol (CBGC) yn gynllun dyfarnu â chymhelliad sydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru (y Llywodraeth) a'i reoli a'i weinyddu gan Ofal Cymdeithasol Cymru.

1.2. Mae CBGC yn rhoi cymhelliad ariannol i unigolion sy'n ymgymryd â hyfforddiant gwaith cymdeithasol ac sy'n byw yng Nghymru.

1.3. Nod CBGC yw cyfrannu tuag at dwf gweithlu gofal cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru.

1.4. Pwrpas darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol yw:

1.4.1. rhoi cymhelliad i unigolion yng Nghymru ymgymryd â cwrs hyfforddiant gwaith cymdeithasol; a

1.4.2. helpu i sicrhau cyflenwad digonol o weithwyr cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol.

1.5. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer gweinyddu CBGC a'r meini prawf a gaiff eu defnyddio gan Ofal Cymdeithasol Cymru wrth asesu cymhwysedd am arian o dan y CBGC.

### 2. Cynsail Cyfreithiol, Atebolrwydd, Monitro ac Adolygu

2.1. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweinyddu ac yn rheoli CBGC ar ran y Llywodraeth. Mae gan y Llywodraeth bwerau i roi dyfarniadau ariannol i unigolion sy'n dilyn cwrs hyfforddiant gwaith cymdeithasol yn unol ag adran 116 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

2.2. Mae CBGC yn adlewyrchu'r egwyddorion a bennwyd gan y Llywodraeth.

2.3. Caiff CBGC ei ddatblygu a'i reoli o fewn fframwaith atebolrwydd ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru ac o fewn y fframwaith atebolrwydd a bennwyd yn y Datganiad Llywodraethu a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth.

2.4. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn monitro CBGC fel rhan o'i drefniadau llywodraethu, archwilio a monitro.

2.5. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwerthuso effeithiolrwydd gweinyddol CBGC yn barhaus a bydd CBGC yn cael ei adolygu a'i ddatblygu'n rheolaidd yn unol â hynny.

2.6. Bydd y symiau sy'n daladwy o dan CBGC yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd.

2.7. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal adolygiad ffurfiol o CBGC o leiaf bob pum mlynedd.

2.8. Ni ellir newid amodau CBGC heb gymeradwyaeth Prif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru.

2.9. Caiff y CBGC ac ymwybyddiaeth ohono ei hyrwyddo gan Ofal Cymdeithasol Cymru.

## 3. Egwyddorion y Cynllun a'r Prif Feini Prawf Cymhwysedd

3.1. Mae'r fwrsariaeth gwaith cymdeithasol yn daladwy i ymgeiswyr cymwys fel cymhelliad i ddilyn hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Dylai'r CBGC gyfrannu at gostau unigolyn sy'n hyfforddi i fod yn weithiwr cymdeithasol ond ni fwriedir iddo fod yn ddigon i dalu am bopeth.

3.2. Bydd nifer penodol o fwrsariaethau'n cael eu dyrannu i bob darparwr addysg gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, mae darparwr addysg gwaith cymdeithasol yn golygu cwrs astudio gwaith cymdeithasol a gymeradwyir sy'n cael ei gynnal gan gorff addysg uwch unigol.

3.3. Mae dwy elfen unigryw i arian CBGC, a nodir manylion y rhain yn:

3.3.1. Adran 4 - yr elfen nad yw'n seiliedig ar incwm; ac

3.3.2. Adran 5 - yr elfen sy'n seiliedig ar incwm.

Mae'r adrannau'n cynnwys y meini prawf penodol y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i dderbyn yr elfen honno o'r fwrsariaeth.

3.4 Pa bynnag feini prawf cymhwysedd penodol a nodir yn erbyn yr elfennau unigol, mae'n rhaid i bob myfyriwr fodloni'r meini prawf cymhwysedd trosfwaol canlynol i wneud cais dan y CBGC:

3.4.1 rhaid i'r myfyriwr fod yn dechrau neu eisoes yn astudio ar gwrs astudio a gymeradwyir yng Nghymru (am restr o gyrsiau a gymeradwyir, ewch i (gofalcymdeithasol.cymru/gyrfaoedd/ariannu-myfyrwyr);

3.4.2 ni chaiff y myfyriwr ei gyllido neu ei gefnogi gan gyflogwr, darpar gyflogwr neu unrhyw sefydliad arall. Gall cefnogaeth neu gyllid o'r fath gynnwys:

3.4.2.1 unrhyw amser i ffwrdd â thâl i alluogi iddynt fynychu astudiaethau (gan gynnwys cyfleoedd dysgu ymarfer); neu

3.4.2.2 rhan neu'r cyfan o ffioedd dysgu;

3.4.3. os yw’n cael taliad cadw gan gyflogwr neu ddarpar gyflogwr yn y dyfodol, rhaid iddo:

3.4.3.1. cael ei gynnig fel cymhelliad i ymgymryd â chyflogaeth gyda’r darparwr taliad cadw pan fydd y myfyriwr yn cymhwyso fel Gweithiwr Cymdeithasol, ac nid fel cymorth tuag at hyfforddiant gwaith cymdeithasol y myfyriwr.

3.4.4 rhaid i’r myfyriwr fod wedi byw yng Nghymru fel arfer am o leiaf 12 mis ac yn y Deyrnas Unedig am dair blynedd yn y cyfnod cyn dyddiad y cais am arian CBGC, neu ddechrau’r cwrs, pa bynnag un sydd gynharaf ac yn bodloni’r meini prawf preswylio yn un o’r categorïau A–M a nodir yn Atodiad 2.

Hefyd, i fod yn gymwys mae’n rhaid i fyfyrwyr:

3.4.5 fod wedi’u henwebu gan y darparwr addysg sy’n gyfrifol am ddarparu’r cwrs astudio a gymeradwyir y maent wedi’u derbyn arno;

3.4.6 fod wedi, neu wrthi’n dechrau eu blwyddyn gyntaf ar y cwrs astudio wedi’i gymeradwyo. Ni fydd myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i dderbyn bwrsariaeth yn eu blwyddyn gyntaf yn gymwys i dderbyn bwrsariaeth mewn blynyddoedd dilynol;

3.4.7 ddim eisoes yn meddu ar Ddiploma mewn Gwaith Cymdeithasol (DipSW), Tystysgrif Cymhwyster mewn Gwaith Cymdeithasol (CQSW) neu Dystysgrif mewn Gwasanaeth Cymdeithasol (CSS) a ddyfarnwyd gan Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol (CCETSW), Gofal Cymdeithasol Cymru, neu unrhyw gyngor rheoleiddio gofal cymdeithasol arall yn y DU neu unrhyw gymwysterau eraill gan ragflaenwyr sy’n cymhwyso myfyrwyr ar gyfer cofrestru;

3.4.8 ddim yn astudio ar gyfer cymhwyster nyrsio a gwaith cymdeithasol ar y cyd ac yn derbyn bwrsariaeth y GIG; a

3.4.9 fod wedi’u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel myfyrwyr gwaith cymdeithasol er mwyn bod yn gymwys i dderbyn taliad bwrsariaeth o dan y CBGC.

3.5 Bydd myfyriwr yr ystyriwyd ei fod yn gymwys i gael bwrsariaeth ym mlwyddyn gyntaf yr astudiaeth yn parhau i fod yn gymwys i gael bwrsariaeth am weddill y cwrs, oni bai bod hawl i breswylio neu adael i aros yn y DU, fel y penderfynir gan y Swyddfa Gartref, yn dod i ben. Os dylai hyn ddigwydd, bydd GCC yn gohirio’r fwrsariaeth ac ni fydd yn ailddechrau talu’r

fwrsariaeth nes bod y myfyriwr yn darparu cadarnhad bod ei hawl i breswylio neu adael i aros yn y DU wedi'i hadnewyddu gan y Swyddfa Gartref.

## Rhan B: Elfennau'r Cynllun Bwrsariaeth

### 4. Yr Elfen Nad yw'n Seiliedig ar Incwm

4.1. Cyffredinol:

4.1.1. Mae'r elfen nad yw'n seiliedig ar incwm yn cynnwys dwy elfen unigryw (ceir manylion penodol yng ngweddill adran 4):

4.1.1.1. Yr elfen bwrsariaeth; ac

4.1.1.2. Yr elfen Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer (LCDY).

4.1.2. Mae'r canlynol yn gymwys i'r ddwy elfen o'r elfen nad yw'n seiliedig ar incwm o'r CBGC:

4.1.2.1. Bydd myfyrwyr sy'n derbyn bwrsariaeth dan yr elfen nad yw'n seiliedig ar incwm yn gymwys yn awtomatig i dderbyn y LCDY yn amodol ar amodau'r LCDY; ac

4.1.2.2. Mae myfyrwyr sy'n astudio ar sail rhan-amser neu dysgu o bell yn gymwys i dderbyn bwrsariaeth dan yr elfen nad yw'n seiliedig ar incwm ar sail gymesurol. At ddiben CBGC, mae astudio rhan-amser yn golygu astudio sydd wedi'i ddynodi'n rhan-amser gan y coleg/prifysgol. Bydd myfyrwyr sy'n astudio ar sail rhan-amser neu dysgu o bell yn gymwys i dderbyn LCDY hefyd ar gyfer unrhyw flwyddyn lle maent yn manteisio ar gyfle dysgu ymarfer.

4.1.3. Os yn llwyddiannus, cynigir y fwrsariaeth nad yw'n seiliedig ar incwm dan CBGC fel arfer hyd at y pwynt cymhwyso neu am uchafswm o dair blynedd ar gyfer myfyrwyr israddedig a dwy flynedd ar gyfer myfyrwyr gradd ôl-raddedig, pa bynnag un sydd gyntaf. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r myfyriwr wneud cais bob blwyddyn ar gyfer y cynllun perthnasol ac nid oes sicrwydd y bydd cyllid ar gael yn y dyfodol i'r myfyriwr hwnnw trwy gydol ei gwrs astudio.

4.2. Yr Elfen Fwrsariaeth:

4.2.1. Yr elfen fwrsariaeth;

4.2.2. Mae'n rhaid i ymgeiswyr am yr elfen fwrsariaeth gydymffurfio â'r meini prawf cyffredinol a nodir yn adran 3.4; a

4.2.3. Mae’r cyllid sydd ar gael dan yr elfen fwrsariaeth fel a ganlyn:

Bwrsariaeth cwrs gradd israddedig:

4.2.3.1 astudio’n llawn amser mewn prifysgol/coleg: £3,750; neu

4.2.3.2 astudio’n rhan-amser neu dysgu o bell: Canran pro rata o’r fwrsariaeth berthnasol.

Bwrsariaeth cwrs gradd Meistr:

4.2.3.3 astudio’n llawn amser mewn prifysgol/coleg: £12,715 a fwriedir fel cyfraniad tuag at gostau ffioedd dysgu a chostau byw myfyrwyr gwaith cymdeithasol; neu

4.2.3.4 astudio’n rhan-amser neu dysgu o bell: Canran pro rata o’r fwrsariaeth berthnasol.

4.3 Yr Elfen Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer (LCDY)

4.3.1 Cyfraniad yw’r LCDY at y costau cyfle dysgu ymarfer y mae myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn eu hwynebu fel rhan integrol o’u hyfforddiant cymhwyso.

4.3.2 Yn yr adran hon bydd cyfle dysgu ymarfer yn cael ei ddehongli fel ymwneud â dysgu ymarfer ym maes gwaith cymdeithasol sy’n ofynnol yn ôl Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru ar Gymeradwyo ac Ymweld â Chyrsiau Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2018 ar gyfer Gradd Gwaith Cymdeithasol.

4.3.3 Dim ond os ydynt wedi derbyn bwrsariaeth nad yw’n seiliedig ar incwm dan y CBGC y mae myfyrwyr yn gymwys i dderbyn LCDY.

4.3.4 Mae’r cyllid sydd ar gael dan yr elfen LCDY fel a ganlyn:

4.3.4.1 Cyfrifir y LCDY cychwynnol ar sail £7.50 y diwrnod cyfle dysgu ymarfer mewn perthynas â gwariant cymwys (y “Lwfans Cychwynnol”).

4.3.4.2 Bydd myfyrwyr sy’n ymgymryd â’r cwrs ar sail rhan-amser neu dysgu o bell yn derbyn y LCDY am unrhyw flwyddyn y maent yn ymgymryd â chyfle dysgu ymarfer.

4.3.4.3 Efallai y bydd myfyrwyr sydd wedi defnyddio’u lwfans cychwynnol mewn unrhyw flwyddyn ddiffiniedig ar wariant cymwys sy’n ymwneud â’u cyfle dysgu ymarfer yn gallu hawlio ad-daliad am gostau cymwys sy’n uwch na’r lwfans

cychwynnol. Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion am y LCDY.

Noder fod uchafswm nifer dyddiau yn berthnasol i hawliadau LCDY yn seiliedig ar hyd y lleoliad.

## 5. Yr Elfen sy'n Seiliedig ar Incwm

### 5.1 Cyffredinol

5.1.1 Mae'r elfen sy'n seiliedig ar incwm yn cynnwys tair elfen unigryw (ceir manylion penodol yng ngweddill adran 5):

5.1.1.1 Grant Gofal Plant;

5.1.1.2 Grant Oedolyn Dibynnol; a

5.1.1.3 Lwfans Dysgu i Rieni.

5.1.2 Mae'r canlynol yn berthnasol i holl elfennau'r CBGC sy'n seiliedig ar incwm:

5.1.2.1 Mae'r elfennau yma ar gael i fyfyrwyr gradd Meistr yn unig; a

5.1.2.2 Mae cymhwysedd i dderbyn yr elfennau sy'n seiliedig ar incwm yn ddibynnol ar lefel incwm trethadwy heb ei ennill yr ymgeisydd yn ystod y flwyddyn academaidd berthnasol ac ar lefel incwm dros ben priod/partner sifil/partner (fel bo'n berthnasol) yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn academaidd berthnasol. Gall ymgeiswyr ofyn am ailasesiad o'u lwfans sy'n seiliedig ar incwm os yw incwm eu priod/partner sifil/partner yn lleihau yn sylweddol yn ystod y flwyddyn academaidd.

5.1.3 At ddibenion asesu incwm:

Incwm heb ei ennill yw incwm nad yw'n cael ei ennill trwy weithio. Mae'n cynnwys difidendau o gyfranddaliadau, llog ar gynilion ac incwm o dir ac eiddo, ond nid yw'n cynnwys budd-daliadau nawdd cymdeithasol.

Incwm dros ben yw incwm trethadwy gros llai didyniadau a ganiateir sydd ar gael mewn cysylltiad â:

- dibynnydd nad yw'n ŵr/gwraig/partner sifil/partner.
- taliadau cynllun pensiwn a blwydd-daliadau sy'n gymwys am ostyngiad mewn treth.

- costau cyflogi gweithiwr cymorth domestig lle bo angen hynny oherwydd anabledd.
- costau byw pan fo priod/partner sifil/partner ymgeisydd yn byw y tu allan i'r DU mewn gwlad ble mae costau byw yn uwch nag yn y DU.

5.2 Cymhwysedd ar gyfer yr Elfen sy'n seiliedig ar Incwm – Grant Gofal Plant

5.2.1 Mae'r grant Gofal Plant yn darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs gradd Meistr i gynorthwyo gyda darpariaeth gofal plant.

5.2.2 Mae'n rhaid i ymgeiswyr am Grant Gofal Plant:

5.2.2.1 fod ag un neu fwy o blant yn derbyn gofal plant cofrestredig neu gymeradwy tra bo'r ymgeisydd yn astudio. Dylid defnyddio'r Grant Gofal Plant fel cyfraniad tuag at gostau gofal plant y mae'n rhaid eu talu yn ystod cyfnod astudio CBGC; a

5.2.2.2 bod ag incwm cyfunol, sy'n cynnwys incwm heb ei ennill ac unrhyw incwm dros ben gan briod/partner sifil/partner gydag un plentyn o £23,400 neu lai'r flwyddyn, neu gyda dau neu fwy o blant o £25,974 neu lai'r flwyddyn.

Ni fydd gan ymgeiswyr hawl i dderbyn Grant Gofal Plant os ydyn nhw neu eu priod/partner sifil/partner yn derbyn elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith gan CThEM neu elfen gofal plant Credyd Cynhwysol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

5.2.3 At ddiben yr adran hon:

Ystyr gofal plant cofrestredig yw gofal plant a gaiff ei ddarparu gan berson neu gorff sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn neu'r Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted). Mae gofal plant cofrestredig yn cynnwys gwarchodwyr plant cofrestredig, meithrinfeydd, cylchoedd chwarae, canolfannau rhagoriaeth gynnar a chynlluniau chwarae yn ystod gwyliau ysgol. Mae rhai ysgolion yn cynnig gofal dyddiol i blant y tu allan i oriau arferol. Gellir talu'r Grant Gofal Plant ar gyfer y math hwn o ofal plant cyhyd â bod yr ysgol wedi'i chofrestru fel darparwr gofal dydd gan AGGCC, Estyn neu Ofsted; ac

Ystyr gofal plant wedi'i gymeradwyo yw darparwr sydd wedi cael ei gymeradwyo gan gynllun Sicrhau Ansawdd sefydliad achrededig ac sydd wedi cael cadarnhâd ysgrifenedig o'r gymeradwyaeth. Rhoddir cymeradwyaeth am gyfnod penodol (dim mwy na dwy flynedd) a bydd y darparwr gofal plant yn rhoi cyfeirnod.

5.2.4 Mae’r cyllid sydd ar gael dan yr elfen Grant Gofal Plant fel a ganlyn:

5.2.4.1 un plentyn mewn gofal plant:
Hyd at uchafswm o £8,330 y flwyddyn.

5.2.4.2 dau neu fwy o blant mewn gofal plant:
Hyd at uchafswm o £14,285 y flwyddyn.

5.3 Cymhwysedd am yr Elfen Incwm a Asesir – Grant Oedolyn Dibynnol

5.3.1 Mae’r Grant Oedolyn Dibynnol yn darparu cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr sy’n dilyn cwrs gradd Meistr er mwyn helpu i gynnal cymorth i oedolion sy’n dibynnu’n ariannol ar y myfyriwr hwnnw.

5.3.2 Mae’n rhaid i ymgeiswyr am y Grant Oedolyn Dibynnol:

5.3.2.1 fod â phriod/partner sifil/partner sy’n ddibynnol yn ariannol ar yr ymgeisydd yn ystod cyfnod astudio’r ymgeisydd o dan y CBGC; a

5.3.2.2 bod ag incwm cyfunol, sy’n cynnwys incwm heb ei ennill ac unrhyw incwm dros ben gan briod/partner sifil/partner, o £3,500 neu lai'r flwyddyn.

5.3.3 Mae’r cyllid sydd ar gael o dan yr elfen Grant Oedolyn Dibynnol fel a ganlyn:
Hyd at £2,645 (52 wythnos).

5.4 Cymhwysedd ar gyfer er Elfen Incwm a Asesir – Lwfans Dysgu i Rieni

5.4.1 Mae’r Lwfans Dysgu i Rieni yn darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy’n dilyn cwrs gradd Meistr i helpu i gynnal cymorth i blant sy’n dibynnu’n ariannol ar y myfyriwr hwnnw.

5.4.2 Mae’n rhaid i ymgeiswyr ar gyfer Lwfans Dysgu i Rieni:

5.4.2.1 bod ag un neu fwy o blant dibynnol; a

5.4.2.2 fod ag incwm cyfunol, sy’n cynnwys incwm heb ei ennill ac unrhyw incwm dros ben gan briod/partner sifil/partner gydag un plentyn o £23,400 neu lai'r flwyddyn, neu gyda dau neu fwy o blant o £25,974 neu lai'r flwyddyn.

5.4.3 Mae’r cyllid sydd ar gael o dan yr elfen Lwfans Dysgu i Rieni fel a ganlyn:

Hyd at £1,505 (52 wythnos).

## Rhan C: Y Broses Ymgeisio

### 6. Y broses ymgeisio

6.1. Ar ôl derbyn enwebiadau myfyrwyr gan ddarparwr addysg yn unol ag adran 3.4.4 bydd dolen i'r ffurflen gais bwrsariaeth sydd o fewn eu cyfrif GCCarlein yn cael ei e-bostio at bob myfyriwr a gafodd ei henwebu am fwrsariaeth gan y darparwr addysg.

6.2. Fel arfer, dylid cwblhau a chyflwyno ceisiadau i Ofal Cymdeithasol Cymru cyn y dyddiad cau. Mae'n rhaid cwblhau ceisiadau yn llawn a dylent gynnwys yr holl dogfennau ategol angenrheidiol. Dylai dogfennau gael eu sganio a'i e-bostio at y Tîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau neu ei gyflwyno yn uniongyrchol drwy eu cyfrif GCCarlein.

6.3. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol ac mae'n rhaid i ymgeiswyr ei darparu er mwyn i Ofal Cymdeithasol Cymru allu asesu cymhwysedd ar gyfer CBGC. Gellir sganio neu e-bostio tystiolaeth neu ei hanfon drwy'r post i Ofal Cymdeithasol Cymru. Mae'n rhaid i ymgeiswyr anfon copïau o'r dystiolaeth ddogfennol y gofynnir amdani (ni ddylai ymgeiswyr anfon y dogfennau gwreiddiol).

6.4. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadarnhau eu bod wedi derbyn y cais.

6.5. Bydd ceisiadau'n cael eu prosesu yn y drefn y derbynnir nhw.

6.6. Gofal Cymdeithasol Cymru fydd yn penderfynu a fydd yn ymdrin â cheisiadau hwyr ai peidio. Ni ellir gwarantu'r amser prosesu.

6.7. Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwerthuso rhinweddau cymharol unrhyw geisiadau a dderbynnir.

6.8. Caiff pob bwrsariaeth gwaith cymdeithasol ei dyfarnu'n amodol. Unwaith y mae cais am arian ac unrhyw ddogfennau atodol angenrheidiol wedi eu derbyn a'u hasesu gan Ofal Cymdeithasol Cymru, bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu trwy e-bost am delerau'r dyfarniad. Ni fydd unrhyw daliad yn cael ei wneud i'r ymgeisydd nes i Ofal Cymdeithasol Cymru dderbyn cadarnhad ysgrifenedig gan y darparwr addysg bod yr ymgeisydd wedi cofrestru ar gwrs gwaith cymdeithasol sydd wedi ei gymeradwyo a bod y myfyriwr wedi dechrau ar y cwrs.

6.9. Ni fydd unrhyw daliad yn cael ei wneud i'r ymgeisydd nes iddynt gofrestru ar y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol.

## 7. Hawliadau Ffug

7.1. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw'r hawl i wrthod cymorth CBGC i ymgeiswyr sy'n cyflwyno ceisiadau am arian sy'n cynnwys gwybodaeth ffug neu gamarweiniol. Dylai ymgeiswyr nodi y gall cyflwyno gwybodaeth ffug neu gamarweiniol arwain at erlyniad troseddol a gall effeithio ar gymhwysedd ymgeiswyr i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru nawr ac yn y dyfodol.

# Rhan D: Ar ôl y Dyfarniad

## 8. Absenoldeb/Ymddygiad

8.1. Mae taliadau CBGC yn amodol ar bresenoldeb boddhaol ar y cwrs, datblygiad academaidd ac ymddygiad personol y myfyrwyr.

8.2. Mae'n rhaid i ymgeiswyr hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ysgrifenedig ar unwaith os oes unrhyw newid ym mhatrwm eu presenoldeb ar gwrs.

8.3. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gofyn am wybodaeth gan ddarparwyr addysg yn rheolaidd mewn perthynas â datblygiad myfyrwyr sy'n derbyn cyllid.

8.4. Os bydd darparwr addysg yn hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru bod myfyriwr wedi'i:

8.4.1. wahardd, diarddel neu wedi gadael y cwrs; neu

8.4.2. nad yw presenoldeb/datblygiad/ymddygiad y myfyriwr yn foddhaol.

Gall Gofal Cymdeithasol Cymru ddal taliadau yn ôl neu derfynu taliadau i'r myfyriwr hwnnw. Os yw myfyriwr wedi derbyn arian dan CBGC nad oes ganddo/ganddi hawl iddo oherwydd ymddygiad neu absenoldeb, gall Gofal Cymdeithasol Cymru fynnu bod yr arian yn cael ei ad-dalu gan y myfyriwr.

## 9. Trosglwyddo Astudiaeth

Gall ymgeisydd sy'n trosglwyddo o un cwrs a gymeradwywyd yng Nghymru i gwrs arall a gymeradwywyd yng Nghymru barhau i fod yn gymwys am gymorth CBGC.

## 10. Ail-wneud Astudiaeth

10.1. Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ariannu cyfnodau o ail-wneud astudiaeth fel arfer.

10.2. Bydd ymgeiswyr sydd wedi gadael cwrs heb gwblhau'r flwyddyn academaidd ac sy'n dymuno ail-wneud y rhan honno o'r cwrs mewn blwyddyn arall (ac sy'n gymwys fel arall) yn gymwys i dderbyn dyfarniad rhannol sy'n gyfwerth â'r ganran o'r dyfarniad cyfan na wnaethant ei ddefnyddio'n wreiddiol, h.y. yr arian yr oedd hawl ganddynt ei gael pe na baent wedi gadael y cwrs. Ni fydd unrhyw daliad yn cael ei wneud nes i'r ymgeisydd gyrraedd y rhan honno o'r flwyddyn academaidd ddilynol pan adawodd yr ymgeisydd y cwrs gwreiddiol.

## 11. Newid mewn Amgylchiadau

11.1. Mae'n rhaid i ymgeiswyr roi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru yn ysgrifenedig ar unwaith os yw eu hamgylchiadau'n newid ar unrhyw adeg ar ôl cyflwyno eu cais. Mae newidiadau perthnasol yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- 11.1.1. newid darparwr addysg;
- 11.1.2. newid cwrs p'un ai yw'r cwrs newydd yn yr un brifysgol/coleg neu mewn un gwahanol;
- 11.1.3. newid ym mis neu flwyddyn dechrau neu ddiwedd y cwrs;
- 11.1.4. newid ym mhrif gampws yr astudiaeth;
- 11.1.5. newid mewn patrwm astudio o astudiaeth lawn amser neu ran-amser neu'r gwrthwyneb;
- 11.1.6. tynnu'n ôl o'r cwrs cyn y dyddiad cwblhau;
- 11.1.7. cael eich diarddel o gwrs gan y brifysgol/coleg, dros dro neu'n barhaol;
- 11.1.8. methu mynychu'r cwrs am unrhyw reswm, yn cynnwys salwch sy'n para mwy na chyfanswm o 15 diwrnod;
- 11.1.9. cymryd blwyddyn neu dymor o seibiant o astudio;
- 11.1.10. newid cyflogaeth;
- 11.1.11. cael cymorth gan gyflogwr;
- 11.1.12. newidiadau yn y cyfle dysgu ymarfer; neu

11.1.13. newid cyfeiriad neu fanylion cyswllt.

11.2. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw rhoi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru os bydd unrhyw newid mewn amgylchiadau a all effeithio ar arian.

11.3. Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw oedi wrth asesu ceisiadau neu wrth wneud taliadau sy’n digwydd oherwydd bod ymgeisydd wedi methu rhoi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru am newid mewn amgylchiadau. Os yw newid mewn amgylchiadau’n golygu nad yw’r myfyriwr yn gymwys am CBGC, gall Gofal Cymdeithasol Cymru derfynu’r fwrsariaeth. Os oes taliadau wedi’u gwneud pan nad yw’r ymgeisydd yn gymwys mwyach, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw’r hawl i adfer unrhyw daliadau o’r fath gan yr ymgeisydd.

## 12. Dyddiadau a Dulliau Talu

12.1. Bydd gwybodaeth am daliadau’n cael ei darparu mewn llythyr hysbysu fydd yn cael ei anfon at yr ymgeisydd trwy e-bost unwaith y bydd y cais wedi ei asesu ac y bydd penderfyniad wedi ei wneud bod yr ymgeisydd yn gymwys i dderbyn arian o dan CBGC.

12.2. Telir y bwrsariaeth mewn rhandaliadau.

12.3. Telir rhandaliad unrhyw fwrsariaeth a/neu arian LCDY sy’n daladwy i gyfrif banc a ddynodir gan yr ymgeisydd.

12.4. Ni all Gofal Cymdeithasol Cymru warantu union ddyddiadau unrhyw daliadau.

12.5. Mae’n rhaid i ymgeiswyr gwblhau’r adran ‘Eich Manylion Cyllid’ ar y ffurflen gais am fwrsariaeth a chadarnhau nad yw eu manylion banc wedi newid wrth lenwi'r ffurflen adnewyddu bwrsariaeth.

12.6. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw’r hawl i dynnu taliad yn ôl os yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol o unrhyw newid y cyfeirir ato yn adran 11 neu fod ganddo reswm i gredu bod newid o’r fath wedi digwydd.

## 13. Trefn Adennill Dyledion

13.1. Gall Gofal Cymdeithasol Cymru fabwysiadu’r drefn hon wrth ymdrin â myfyrwyr er mwyn adennill grantiau a dalwyd iddynt.

13.2. Gall Gofal Cymdeithasol Cymru adennill arian a dalwyd i fyfyrwyr yn yr amgylchiadau canlynol ond heb fod yn gyfyngedig i’r amgylchiadau hyn:

13.2.1. Os oes newid wedi bod yn amgylchiadau'r myfyriwr;

13.2.2. Os yw'r myfyriwr wedi darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar ffurflen gais am fwrsariaeth; ac

13.2.3. Os oes gordaliad wedi ei wneud i fyfyriwr.

13.3. Mae'n rhaid i ymgeiswyr lofnodi datganiad yn ymrwymo i ad-dalu unrhyw ordaliadau a wnaed am ba bynnag reswm; gan gynnwys y rhesymau a nodir yn adran 13.2.

13.4. Os yw ad-daliad yn ofynnol, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithredu Trefn Adennill Dyledion Gofal Cymdeithasol Cymru.

13.5. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud ei orau i gael gafael ar ad-daliadau ac yn cyfeirio achosion at gyfreithwyr fel bo angen.

## 14. Cais am Ailasesiad

Gall myfyriwr sy'n gwneud cais aflwyddiannus am fwrsariaeth wneud cais am ail-asesu eu cais ar y sail ganlynol:

14.1. Mae modd ail-asesu cais am arian os bydd yr ymgeisydd yn gwneud cais ysgrifenedig yn gofyn am hynny.

14.2. Unwaith y bydd ail-asesiad wedi ei wneud bydd llythyr/e-bost yn cael ei anfon at yr ymgeisydd i'w hysbysu am ganlyniad yr ail-asesiad.

14.3. Ar ôl i gais gail ei ail-asesu ni fydd modd cynnal asesiad pellach oni bai bod yr amgylchiadau'n rhai eithriadol.

## 15. Cwynion

Os oes gan ymgeisydd gŵyn mewn perthynas â CBGC gall ddefnyddio Polisi Cwynion Allanol Gofal Cymdeithasol Cymru. Gall yr ymgeisydd gyfeirio'r gŵyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd.

## 16. Deddf Diogelu Data 2018

16.1. Wrth weinyddu CBGC, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Gan hynny, dim ond i weinyddu'r cynllun y bydd yn defnyddio data personol myfyrwyr.

16.2. Er mwyn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i weinyddu’r cynllun, bydd yn ofynnol i fyfyrwyr roi caniatâd i’r darparwr addysg sy’n darparu’r cwrs astudio perthnasol i ryddhau gwybodaeth i Ofal Cymdeithasol Cymru yn ymwneud â phresenoldeb, perfformiad y myfyriwr a materion eraill fel sy’n rhesymol ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â’r cynllun a gwneud taliadau.

16.3. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn cael defnyddio gwybodaeth mewn perthynas â’r myfyriwr y mae’n ei chasglu fel rhan o’i rwymedigaethau cofrestru mewn perthynas â’r cynllun CBGC.

16.4. Os yw Gofal Cymdeithasol Cymru angen defnyddio gwybodaeth ar gyfer anghenion adrodd a chyhoeddiadau ehangach, dim ond os yw’n sicrhau bod y data yn anhysbys ac na ellir ei defnyddio i enwi myfyrwyr unigol y caiff wneud hynny.

## Atodiad 1: Hawliadau Am LCDY Ychwanegol

Caiff myfyrwyr sy'n gymwys am LCDY wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw gostau dros ben y lwfans cychwynnol fel a nodir yn 4.3.3.4. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i fyfyrwyr:

(a) ddarparu tystiolaeth fod y lwfans cychwynnol wedi ei wario ar gostau dysgu ymarfer cymwys; a

(b) dangos bod yr hyn a wariwyd dros ben y lwfans cychwynnol wedi ei wario ar gostau cyfle dysgu ymarfer cymwys. Dylid cynnwys pob derbynneb berthnasol gydag unrhyw gais am ad-daliad, p'un ai ei fod hyd at neu'n uwch na'r lwfans.

Caiff gwariant cymwys ar gyfer LCDY ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Costau teithio tra'n cymryd rhan mewn cyfle dysgu ymarfer hyd at uchafswm o £75 y dydd. Mae hyn yn cynnwys costau teithio wrth deithio o gyfeiriad yr ymgeisydd yn ystod y tymor i leoliad y cyfle dysgu ymarfer ac yn ôl neu i ymweliad â defnyddwyr gwasanaethau yn eu cartref.

- Costau am rentu llety dros dro yn arbennig ar gyfer cymryd rhan mewn cyfle dysgu ymarfer. Mae gan fyfyrwyr sy'n gorfod rhentu llety er mwyn gwneud hyn hawl i hawlio hyd at £75 y dydd fel cyfraniad tuag at y costau. Caiff y cyfraniad hwn tuag at rent ei gyfrifo fel rhan o'r uchafswm o £75 y dydd y gallant ei hawlio am deithio i leoliad y cyfle dysgu ymarfer ac yn ôl.

- Gellir hawlio am gostau un ymweliad cyn y lleoliad ac un ymweliad ar ôl y lleoliad. Er mwyn bod yn gymwys i hawlio'r lwfans hwn, mae'n rhaid i fyfyrwyr fod yn parhau i fyw yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor neu fod â chyfeiriad cartref parhaol.

Nid yw'r LCDY ar gael i dalu am gostau mynychu'r brifysgol/coleg ar ddyddiau dychwelyd.

Mewn perthynas â hawlio am unrhyw lwfans wrth gwblhau cyfle dysgu ymarfer:

- ni ellir hawlio am unrhyw gostau ymlaen llaw;

- mae'n rhaid cyflwyno derbynebau ar gyfer yr holl ddyddiadau yr hawliwyd amdanynt; a

- mae'n rhaid i bob cais gael ei ardystio gan Oruchwyliwr Cyfle Dysgu Ymarfer y myfyriwr.

Gellir teithio mewn car preifat neu ar feic modur neu ar feic yn unol â'r terfynau dyddiol a nodwyd.

Os bydd myfyriwr yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, bydd:

- yn cael ad-daliad am wir gost y daith.
- disgwyl i'r pris am deithio ar drên fod ar y gyfradd safonol a dylid defnyddio tocynnau dwyffordd a chyfraddau rhad.
- disgwyl i chi atodi pob derbynneb gyda phob hawliad am daith.

Telir am bob milltir o deithio mewn car preifat neu feic modur ar y raddfa ganlynol:

| | |
|---|---|
| Car preifat | 45c y filltir |
| Beic modur | 24c y filltir |
| Beic: | 20c y filltir |

Gall myfyrwyr sy'n teithio mewn car preifat hawlio atodiad teithiwr ar gyfer pob myfyriwr a gaiff ei gludo sy'n derbyn bwrsariaeth gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Mae'n rhaid i ffurflenni hawlio ddangos enw(au)'r teithiwr/teithwyr, rhif cyfeirnod Gofal Cymdeithasol Cymru, pwrpas y daith a nifer y milltiroedd. Y raddfa yw 5c y filltir ar gyfer bob teithiwr. Dylid nodi y gellir hawlio'r swm hwn yn ogystal â'r terfyn teithio dyddiol. Pan fo myfyrwyr yn teithio gyda'i gilydd, dim ond y gyrrwr all hawlio.

Gellir hawlio am gostau parcio yn ystod cyfle dysgu ymarfer o fewn y terfyn teithio dyddiol o £75 am deithio i'r lleoliad cyfle dysgu ymarfer ac yn ôl. Dylid atodi derbynneb ar gyfer pob cost parcio a dalwyd gyda'r cais.

Gellir hefyd hawlio am gostau parcio o fewn y terfyn teithio dyddiol o £75 am deithio i'r lleoliad cyfle dysgu ymarfer wrth wneud gwaith sy'n uniongyrchol berthnasol megis teithio i gartref defnyddiwr gwasanaeth neu gynhaliwr.

Bydd tollau, ffioedd twnnel a phontydd a thaliadau atal tagfeydd sy'n rhaid eu talu yn ystod y cyfle dysgu ymarfer yn cael eu had-dalu; bydd hyn yn ogystal â'r terfyn teithio dyddiol o £75. Dylid anfon derbynebau gyda'r cais.

Yswiriant:

Mae'n rhaid i bob myfyriwr gwblhau'r adran "Datganiad Yswiriant" sy'n rhan o'r ffurflen gais. Bydd angen i fyfyrwyr gwblhau'r adran hon hyd yn oed os nad oes bwriad ganddynt ddefnyddio car preifat at bwrpas cyfle dysgu ymarfer.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr gael yswiriant am y risgiau canlynol cyn y gellir rhoi taliad iddynt fel rhan o hawliad cerbyd preifat:

a. hawliadau'n berthnasol i deithio i gyfeiriad cartref parhaol ac yn ôl, cyfeiriad yn ystod y tymor, cyfeiriad lleoliad y cyfle dysgu ymarfer a chyfeiriad llety yn ystod y cyfle dysgu ymarfer:

    - niwed corfforol, neu farwolaeth trydydd parti, a
    - niwed corfforol, neu farwolaeth unrhyw deithiwr, a
    - difrod i eiddo trydydd parti.

b. Os caiff y cerbyd ei ddefnyddio yn ystod y cyfle dysgu ymarfer, mae'n rhaid i'r polisi gynnwys y canlynol yn ogystal:

    - difrod i gar neu ddwyn y car, ac
    - arnodiad i gadarnhau bod y polisi'n caniatáu i'r myfyriwr ddefnyddio'r car at ddefnydd busnes.

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod ei bolisi yswiriant yn cwmpasu'r risgiau hyn. Dylid cael arnodiad gan y cwmni yswiriant i ddangos bod hawl ganddo i ddefnyddio'r cerbyd yn ystod y cyfnod hyfforddiant ac nad yw'r cwmni yswiriant yn ystyried bod derbyn lwfans milltiredd yn gyfystyr â defnyddio ar gyfer llogi nac yn ddyfarniad ariannol. Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn talu unrhyw gostau ychwanegol sydd ynghlwm ag yswirio ar gyfer defnydd busnes.

Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn atebol am unrhyw ddamwain, niwed, anaf neu farwolaeth a fydd yn deillio o ddefnyddio cerbyd myfyriwr. Dim ond os bydd yr amodau yswiriant wedi eu bodloni y bydd modd talu lwfans milltiredd. Er mai cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod eu polisi yn bodloni'r gofynion, mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru yr hawl i archwilio'r polisi ar unrhyw bryd.

Bydd hawliadau am dreuliau uwchben lefel y lwfans cychwynnol yn cael eu cyflwyno bob mis fel arfer.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal archwiliadau cyfnodol o hawliadau milltiroedd ceir preifat gan ddefnyddio proses gwirio milltiredd a bydd yn talu am y daith fyrraf.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal archwiliadau cyfnodol o brisiau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn prosesu hawliadau am dreuliau yn ôl y dyddiad y cyflwynwyd nhw neu'r dyddiad yr ail-gyflwynwyd nhw.

Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am unrhyw ffurflenni neu dogfennau sy'n mynd ar goll yn y post.

Mae'n rhaid i Oruchwyliwr Cyfle Dysgu Ymarfer y myfyriwr wirio pob hawliad am dreuliau.

Ni ellir derbyn unrhyw hawliadau sy’n dangos unrhyw arwyddion o addasu neu ymyrraeth.

Os bydd gordaliad yn cael ei wneud, bydd y swm ychwanegol yn cael ei drin fel dyled i’w hadennill. O dan y fath amgylchiadau, gellir defnyddio hawliadau am dreuliau i leihau neu i wneud iawn am y gordaliadau.

## Atodiad 2: Meini Prawf Preswylio

At ddibenion deall y categorïau, bydd yr ystyron canlynol yn berthnasol:

| | |
|---|---|
| Gweithwyr mudol | At bwrpas yr adran hon mae person yn weithiwr mudol os yw ef neu hi mewn, neu wedi bod mewn, perthynas gyflogaeth yn y DU a bod y gweithgarwch galwedigaethol yn y DU yn fwy na dim ond ategu ei astudiaethau. Mewn perthynas gyflogaeth, mae un person yn cyflawni gwasanaethau i ac o dan gyfarwyddyd person arall ac yn derbyn tâl am wneud hynny. Er mwyn cael ei ystyried fel gweithiwr, mae'n rhaid i berson gyflawni gweithgaredd sy'n effeithiol a dilys ac eithrio gweithgareddau galwedigaethol sydd ar raddfa mor fach nes y cânt eu hystyried yn weithgareddau ymylol ac ategol yn unig. Mae person yn weithiwr mudol at bwrpas CBGC os yw'n annhebygol o fod yn gweithio'n rhan-amser er mwyn helpu i ariannu ei astudiaethau. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd gweithgarwch neu fwy nag un perthynas gyflogaeth yn olynol sy'n galluogi i'r gweithiwr gynnal ei hun heb unrhyw gymorth allanol am gyfnod estynedig yn cael eu hystyried yn ymylol ac ategol. Mae'n debygol felly y bydd unigolyn sydd wedi gwneud y math hwn o waith dros gyfnod estynedig o amser yn cael ei ystyried fel gweithiwr mudol at bwrpas CBGC. |
| Byw fel arfer | At ddibenion yr adran hon mae unigolyn fel arfer yn preswylio mewn lle neu wlad y mae ef neu hi wedi ei mabwysiadu'n wirfoddol ac at ddiben sefydlog fel rhan o drefn arferol ei fywyd ef neu ei bywyd hi am y tro, boed hynny am gyfnod hir neu fyr. Gellir cael mwy nag un diben sefydlog. Gallai'r diben sefydlog fod am gyfnod cyfyngedig, ond mae'n rhaid bod parhad digonol yn sail i ddiben er mwyn iddo gael ei ddisgrifio'n sefydlog. Gellir ystyried addysg, busnes neu broffesiwn, cyflogaeth, iechyd, teulu neu gariad at le yn ddibenion sefydlog. |
| Preswylydd sefydlog yn y DU | O dan adran 33 Deddf Mewnfudo 1971, unigolyn sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig (DU) heb fod yn destun unrhyw gyfyngiad, o dan gyfreithiau mewnfudo, ar y cyfnod y gall aros. |
| Yr Ynysoedd | Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. |

| | |
|---|---|
| Tiriogaethau tramor | Mae’n golygu tiriogaethau tramor yr Undeb Ewropeaidd (UE) a thiriogaethau tramor penodedig Prydeinig. |

## Categorïau A-M

### Categori A – Personau sy'n breswylwyr sefydlog yn y DU

Ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd y cwrs, mae’r Ymgeisydd:

- yn breswylydd sefydlog yn y DU o fewn ystyr adran 33 Deddf Mewnfudo 1971; ac
- yn preswylio fel arfer yng Nghymru; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am o leiaf 12 mis calendr yn y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad gwneud cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau’r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU neu’r Ynysoedd trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau’r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf.

### Categori B – Ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd

- Mae'r ymgeisydd yn berson:

  (a) sy'n ffoadur; neu

  (b) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur; neu

  (c) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches; neu

  (d) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu bartner sifil ffoadur a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches; neu

  (e) ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches, roedd yn blentyn i ffoadur neu blentyn person a oedd yn briod neu'n bartner sifil i ffoadur ar y dyddiad hwnnw ac a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad hwnnw; a

- wedi bod yn preswylio fel arfer rywle yn y DU neu’r Ynysoedd ers cael gwybod am ei statws fel ffoadur neu ers cael caniatâd i aros yn y DU; ac
- yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am o leiaf 12 mis calendr yn y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad gwneud cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau’r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU neu’r Ynysoedd trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau’r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf.

## Categori C – Personau o fewn cwmpas Rheoliadau Hawliau Dinasyddion (Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau a Diogelwch Dros Dro) (Ymadael â'r UE) 2020 ('Rheoliadau Hawliau Dinasyddion')

(a) Mae'r Ymgeisydd yn berson sy'n bodloni un o'r amodau canlynol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs:

(i) bod yr Ymgeisydd o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion a'i fod yn breswylydd sefydlog yn y DU yn rhinwedd cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros yn y DU; neu

(ii) mae'r Ymgeisydd –

(aa) fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion;

(ab) yn Ddinesydd Gwyddelig sy'n breswylydd sefydlog yn y DU; a

(ac) byddai'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros yn y DU pe bai'r person hwnnw'n gwneud cais am ganiatâd o'r fath; neu

(iii) mae'r Ymgeisydd -

(aa) o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion;

(ab) yn berson perthnasol at ddibenion Rheoliadau Hawliau Dinasyddion 2020; ac

(ac) yn cael ei drin fel bod ganddo hawl i breswylio'n barhaol; neu

(iv) mae'r Ymgeisydd yn aelod o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon at ddibenion rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio, pan fo'r aelod o'r teulu yn

breswylydd sefydlog yn y DU yn rhinwedd cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros yn y DU; ac

(b) os yw'r Ymgeisydd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(c) wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am o leiaf 12 mis calendr yn y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad gwneud cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf; ac

(d) wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU neu'r Ynysoedd trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf.

## Categori D – personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel person diwladwriaeth ac aelodau o'u teulu

- Mae'r Ymgeisydd yn berson:

(a) y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; neu

(b) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth ar y dyddiad y rhoddwyd caniatâd o'r fath; neu

(c) yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu blentyn i briod neu bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais am ganiatâd; ac

- yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am o leiaf 12 mis calendr yn y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad gwneud cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU neu'r Ynysoedd trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf.

## Categori E – Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y DU ac aelodau o'u teuluoedd

- Mae'r Ymgeisydd yn berson:

(a) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y DU; neu

(b) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y DU ar y dyddiad y rhoddwyd caniatâd o'r fath; neu

(c) sy'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo neu blentyn i briod neu bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo, a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais am ganiatâd; ac

- yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am o leiaf ddeuddeng mis yn y cyfnod o dair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu dyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU neu'r Ynysoedd trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf.

## Categori F – Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd

- Mae'r Ymgeisydd yn berson sydd â hawliau gwarchodedig neu'n weithiwr trawsffiniol o fewn ystyr Rheoliadau Hawliau Dinasyddion (Gweithwyr Trawsffiniol) (Ymadael â'r UE) 2020, sydd:

(a) yn weithiwr mudol o'r AEE neu'n berson hunangyflogedig o'r AEE; neu

(b) yn berson cyflogedig Swisaidd neu berson hunangyflogedig Swisaidd; neu

(c) yn aelod o deulu person yn (a) neu (b) uchod; neu

(d) yn weithiwr trawsffiniol o'r AEE neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol o'r AEE; neu

(e) yn weithiwr trawsffiniol Swisaidd neu berson hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd; neu

(f) yn aelodau o deulu person yn (d) neu (e) uchod; ac

- wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n cynnwys y DU, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am o leiaf ddeuddeng mis yn y cyfnod o dair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC.

## Categori G – Personau sy'n breswylwyr sefydlog yn y DU ac sydd wedi arfer hawl i breswylio yn rhywle arall

Mae'r ymgeisydd yn berson:

- a oedd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ac a oedd yn breswylydd sefydlog yn y DU yn union cyn gadael y DU ac sydd wedi arfer hawl preswylio cyn 31 Rhagfyr 2020; ac
- sydd wedi preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n llunio'r DU, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf; ac
- yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am o leiaf ddeuddeng mis yn y cyfnod o dair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC.

## Categori H – gwladolion yr UE

- mae'r Ymgeisydd yn wladolyn yr UE sydd wedi preswylio fel arfer yn y DU neu'r ynysoedd trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- os yw'r Ymgeisydd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- os yw'r Ymgeisydd wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am gyfanswm o 24 mis calendr o leiaf yn y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Mewn achosion eithriadol lle nad yw ymgeisydd a fyddai fel arall yn bodloni'r holl ofynion yng nghategori H yn gymwys i gael arian am nad yw wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am ddwy flynedd cyn dyddiad cychwyn y cwrs, gall Gofal Cymdeithasol Cymru arfer ei ddisgresiwn mewn perthynas â'r cais, ar ôl ymgynghori ag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG , Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban a Chyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon.

## Categori I – Plant Gwladolion Swisaidd

Mae'r ymgeisydd yn berson sydd:

- yn blentyn i wladolyn y Swistir sydd â hawl i gymorth yn y DU trwy rinwedd Erthygl 18(2) cytundeb hawliau dinasyddion Swistir 2018; ac
- wedi preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n llunio'r DU, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf; ac
- yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am gyfnod cyfan o 12 mis o leiaf yn y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf.

## Categori J – Plant gweithwyr Twrcaidd

Mae plentyn 'Gweithiwr Twrcaidd' yn golygu plentyn i Wladolyn Twrcaidd ac roedd y Gweithiwr Twrcaidd a'r plentyn yn preswylio fel arfer yn y DU yn union cyn 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r ymgeisydd yn berson sydd:

- yn blentyn i weithiwr Twrcaidd a oedd yn preswylio fel arfer yn y DU neu'r Ynysoedd yn union cyn 31 Rhagfyr 2020; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n llunio'r DU, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf; ac
- yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am o leiaf 12 mis calendr yn y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad gwneud cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf.

## Categori K – Adsefydlu dinasyddion Affganistan

Mae’r Ymgeisydd yn unigolyn sydd:

- wedi cael caniatâd i aros o dan gynllun adsefydlu dinasyddion Affganistan; ac
- yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am gyfnod cyfan o 12 mis o leiaf yn y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau’r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU neu’r Ynysoedd trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau’r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf.

## Categori L – Cynllun caniatâd Wcráin

Mae’r Ymgeisydd yn unigolyn sydd:

- wedi cael caniatâd o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin, y Cynllun Cartrefi i Wcráin neu Gynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin; ac
- yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am gyfnod cyfan o 12 mis o leiaf yn y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau’r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf; ac
- wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU neu’r Ynysoedd trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau’r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf.

## Categori M - Personau â Fisa Gweithiwr Medrus

Mae'r Ymgeisydd yn berson:

- gyda fisa Gweithiwr Medrus; ac
- nad yw ei gymhwysedd i aros yn y DU o dan y fisa hwnnw  yn cael ei effeithio gan gymryd rhan yn y cwrs; ac
- yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

- yn preswylio fel arfer yng Nghymru am gyfnod cyfan o 12 mis o leiaf yn y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf; ac
- yn preswylio fel arfer yn y DU neu'r Ynysoedd trwy gydol y cyfnod tair blynedd cyn dyddiad y cais am gyllid CBGC, neu ddyddiad dechrau'r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf.